CPS

Polisi ar gyfer Erlyn Achosion o Droseddau Casineb Homoffobaidd a Thrawsffobaidd

Polisi ar gyfer Erlyn Achosion o Droseddau Casineb Homoffobaidd a Thrawsffobaidd

Beth mae'r term digwyddiad homoffobaidd neu drawsffobaidd yn ei olygu?

Nid oes gennym ddiffiniad cyfreithiol o ddigwyddiad homoffobaidd neu drawsffobaidd. Fodd bynnag, rydym yn dilyn y diffiniad canlynol wrth weithredu'n polisi:

> *"Unrhyw ddigwyddiad a ddehonglir fel un homoffobaidd neu'n drawsffobaidd gan y dioddefydd neu unrhyw un arall."*

Mae'r diffiniad hwn yn eang ac yn cwmpasu pob digwyddiad a deimlir ei fod yn homoffobaidd neu'n drawsffobaidd gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â nhw (yn cynnwys y sawl sy'n cyflawni'r drosedd) neu unrhyw un sy'n dyst i'r drosedd.

Rwy'n cael fy nhargedu oherwydd fy nghyfeiriadedd rhywiol – beth all y llys wneud?

Os bydd rhywun yn pledio neu os y'u ceir yn euog o drosedd yn eich erbyn, a bod y llys yn fodlon fod y drosedd wedi ei hysgogi gan elyniaeth tuag atoch yn seiliedig ar eich

cyfeiriadedd rhywiol, yna rhaid i'r Llys ddelio â'r elyniaeth hon fel rhywbeth sy'n gwneud y drosedd yn fwy difrifol. Rhaid i'r Llys ddatgan hyn yn agored fel bod pawb yn ymwybodol mai dyma'r achos.

Gallai'r elyniaeth fod yn seiliedig ar yr hyn yr oedd y troseddwr yn credu yw'ch cyfeiriadedd rhywiol – hyd yn oed os oeddent yn anghywir.

Nid wyf eisiau i'm cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsrywiol fod yn wybodaeth gyffredinol. Sut allwch sicrhau y diogelir hyn?

Rydym yn cydnabod y pryderon hyn a byddwn yn trin pob dioddefydd a thyst gyda pharch. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud rhoi tystiolaeth yn y llys mor hawdd â phosibl. Gallai hyn gynnwys gwneud cais i'r llys am gyfyngu ar allu'r wasg i adrodd am eich hunaniaeth, er y byddai'r llys angen sicrwydd bod gwneud cyfyngiad ar adrodd er lles cyfiawnder.

Os yw'r llys yn caniatáu'r cais, yna mae pob adran o'r wasg wedi eu hatal rhag cyhoeddi unrhyw wybodaeth allai alluogi rhywun i'ch adnabod.

Beth mae'r CPS yn ei wneud?

Y CPS yw'r prif wasanaeth erlyn ar gyfer Cymru a Lloegr, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Er ein bod yn gweithio'n agos â'r heddlu, rydym yn annibynnol ohonynt. Mae'r heddlu'n gyfrifol am ymchwilio troseddau a chasglu'r dystiolaeth. Mae gennym gyfrifoldeb dros benderfynu (ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf) p'un a ddylid cyhuddo sawl a ddrwgdybir

o drosedd ac, os felly, gyda pha gyhuddiad neu gyhuddiadau.

Sut mae'r CPS yn penderfynu p'un a ddylid cyhuddo rhywun?

Rydym yn gweithredu'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron. Er mwyn sicrhau erlyniad, rhaid bod digon o dystiolaeth i allu sicrhau rhagolwg realistig o euogfarn. Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol hwn, ni ddylai fynd yn ei flaen, waeth pa mor sensitif neu ddifrifol ydyw.

Os nad yw'r achos yn pasio'r cam tystiolaethol, yna rhaid i ni benderfynu a oes angen erlyniad er lles y cyhoedd (y cam lles y cyhoedd). Rydym yn ystyried unrhyw drosedd sy'n seiliedig ar elyniaeth, oherwydd cyfeiriadedd rhywiol canfyddedig neu wirioneddol, fel un fwy difrifol. O ganlyniad, bydd fel arfer er lles y cyhoedd i erlyn mewn achosion casineb homoffobaidd neu drawsffobaidd.

Beth os nad ydw i eisiau mynd i'r llys?

Mae'ch barn chi fel dioddefydd y drosedd yn bwysig wrth benderfynu p'un a ddylai achos fynd yn ei flaen neu beidio, ond nid dyma'r unig ffactor. Rydym yn erlyn achosion ar ran y cyhoedd yn gyffredinol ac nid yn unig er budd unrhyw unigolyn penodol.

Os bydd dioddefydd wedi tynnu cefnogaeth dros erlyn yn ôl, yna mae'n ddyletswydd arnom i ganfod pam. Byddwn yn edrych yn fanwl ar bob opsiwn ac yn cynnig pa bynnag gymorth y gallwn trwy'n Hunedau Gofal Tystion cyn penderfynu p'un ai i erlyn neu beidio. Yn gyffredinol, po fwyaf difrifol yw'r achos, y

mwyaf y bydd er lles y cyhoedd i fynd ymlaen ag erlyniad, hyd yn oed os dywed y dioddefydd nad ydynt am i ni wneud.

Beth yw gwaith Unedau Gofal Dioddefwyr?

Mae gennym Unedau Gofal Tystion ym mhob Maes CPS, yn cael eu rhedeg ar y cyd gan y CPS a'r heddlu. Mae Swyddogion Gofal Tystion yn darparu pwynt cyswllt unigol a chefnogaeth benodol ar gyfer pob tyst i sicrhau y gallwch roi'r dystiolaeth orau posibl. Os ydych yn ddioddefydd trosedd bydd Swyddog Gofal Tyst yn rheoli'ch gofal o'r cyhuddiad hyd at ddiwedd yr achos.

Pa gefnogaeth fyddaf yn derbyn yn y llys?

Pan fyddwch yn mynychu'r llys fel tyst, bydd erlynydd y CPS sy'n cyflwyno'r achos yn cyflwyno ei hun ac yn ateb unrhyw gwestiynau cyffredinol sydd gennych. Os bydd raid i chi aros, byddwn yn sicrhau eich bod yn cael gwybod pam fod oedi a faint o amser a amcangyfrifir y bydd raid i chi aros i roi tystiolaeth.

Ble bynnag fo'n bosibl, byddwn yn ceisio sicrhau fod cyfleusterau aros ar wahân ar gael ar gyfer tystion yr erlyniad fel nad oes raid i chi gymysgu gyda'r diffynnydd neu deulu neu ffrindiau'r diffynnydd.

Mae'r cyhoeddiadau canlynol yn rhoi rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut mae'r erlyniad yn gwneud penderfyniadau a beth all dioddefwyr a thystion ddisgwyl o'r system gyfiawnder troseddol –

- Polisi'r CPS ar gyfer Erlyn Achosion o Droseddau Casineb Homoffobaidd neu Drawsffobaidd
- Y Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron
- Adduned yr Erlynwyr
- Y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd (Cod y Dioddefydd)

Mae'r cyhoeddiadau hyn yn ddogfennau cyhoeddus ac maent ar gael ar wefan y CPS: *www.cps.gov.uk*

CPS Communications Branch, 50 Ludgate Hill,
London EC4M 7EX
Ffôn: 020 7796 8442
Ffacs: 020 77968351
E-bost: publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Mae cyfieithiadau i ieithoedd eraill, a chopïau ar dâp sain ar gael.

Rhagor o wybodaeth a chefnogaeth:

Ymddiriedolaeth Albert Kennedy
www.akt.org.uk

Ffôn: 020 7831 6562
E-bost: contact@akt.org.uk

Unit 203, Hatton Square
16/16a Baldwins Gardens
London EC1N 7RJ

Gires (Cymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth Rhyw)
www.gires.org.uk
Ffôn: 01372 801554
E-bost: info@gires.org.uk

Melverley
The Warren, Ashstead
Surrey KT21 2SP

LGF (Sefydliad Lesbiaid a Hoywon)
www.lgf.org.uk
Llinell Gymorth: 0845 3 30 30 30

Princess House
105-107 Princess Street
Manchester M1 6DD

London Lesbian & Gay Switchboard
www.llgs.org.uk
Llinell Gymorth: 020 7837 7324
E-bost: admin@llgs.org.uk

PO Box 7324
London N1 9QS

Stonewall
www.stonewall.org.uk

Llinell Wybodaeth: 0800 50 20 20
E-bost: info@stonewall.org.uk

Tower Building
York Road
London SE1 7NX

Gellir cael rhagor o gopïau o'r daflen hon gan:

CPS Communication Division
Rose Court
2 Southwark Bridge
Llundain SE1 9HS

Ffôn 020 335 70913
E-bost publicity.branch@cps.gsi.gov.uk

Argraffwyd gan Blackburns of Bolton
Ffôn 01204 532121

Cyhoeddwyd Hydref 2009